

# Cyllid i ddysgwyr ôl- raddedig a'r rhai sydd mewn addysg oedolion 2020-21 Canllaw i etholwyr

Ar gyfer dechrau ym mis Medi 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/ymchwil](http://www.senedd.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7373**  
E-bost: **[Lucy.Morgan@Senedd.Cymru](mailto:Lucy.Morgan@Senedd.Cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Blog: **[SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cyllid i ddysgwyr ôl- raddedig a'r rhai sydd mewn addysg oedolion 2020-21

Canllaw i etholwyr

---

Ar gyfer dechrau ym mis Medi 2020

**Awdur:**

Lucy Morgan



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>1</b>
<b>2. Astudio ôl-raddedig .....</b>	<b>2</b>
2.1. Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig .....	2
2.1.a Meini prawf cymhwysedd.....	2
2.1.b Symiau cyllid.....	3
2.2. Benthyciad doethuriaeth ôl-raddedig .....	4
2.2.a Meini prawf cymhwysedd .....	4
2.2.b Symiau cyllid.....	6
2.3. Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.....	6
2.4. Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig .....	6
2.4.a Cymhelliant hyfforddi athrawon .....	7
2.5. Cyllid gradd gwaith cymdeithasol.....	7
2.5.a Meini prawf cymhwysedd.....	7
2.5.b Symiau cyllid.....	7
2.5.c Grantiau a lwfansau eraill.....	8
<b>3. Ffynonellau cyllid eraill i ôl-raddedigion a'r rhai sydd mewn addysg oedolion .....</b>	<b>9</b>
3.1. Bwrsariaethau .....	9
3.2. Cynghorau ymchwil .....	9
3.3. Y gyfraith .....	9
3.4. Dawns, drama a cherdd.....	10
3.5. Elusennau ac ymddiriedolaethau .....	10
<b>4. Rhagor o wybodaeth .....</b>	<b>12</b>

---

## 1. Cyflwyniad

Bwriad y canllaw hwn yw helpu dysgwyr ôl-raddedig a'r rhai sydd mewn addysg oedolion i ddeall pa gymorth ariannol a allai fod ar gael i'w helpu i astudio naill ai cwrs addysg uwch, neu fath arall o gwrs heblaw prifysgol.

Os gwnaethoch ddechrau astudio cyn mis Awst 2019, dylech ddarllen y **fersiwn flaenorol o'r canllaw hwn** er gwybodaeth.

Mae'r rheolau ynghylch cymorth ariannol myfyrwyr yn hynod gymhleth gyda llawer o eithriadau ac amgylchiadau arbennig. Byddwch yn gweld bod yr ymadrodd "fel arfer" yn cael ei ddefnyddio'n aml yn y canllaw hwn. Y rheswm am hyn yw bod y ddogfen hon i fod yn ganllaw cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu pob posibilrwydd o ran amgylchiadau neu hawliau.

*Ymwadiad: Gofynnir i Wasanaeth Ymchwil y Senedd yn rheolaidd am gyllid myfyrwyr ac mae'r hysbysiad hwylus hwn yn nodi gwybodaeth am rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin. Ni fwriedir iddo fod yn ganllaw cynhwysfawr a dylech bob amser ofyn am gyngor gan Gyllid Myfyrwyr Cymru neu weithiwr proffesiynol cymwysedig sydd wedi'i deilwra i'ch sefyllfa unigol.*

## 2. Astudio ôl-raddedig

Mae cymorth ariannol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n astudio cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth. Mae'r cymorth hwn ar gael ar gyfer cyrsiau amser llawn a rhan-amser.

Yn wahanol i gymorth ariannol israddedig pan fo'r cymorth yn cael ei rannu rhwng help gyda'ch ffioedd dysgu a help gyda'ch costau byw, fel myfyriwr cwrs Meistr neu Ddoethuriaeth byddwch yn cael un swm o arian a chi sy'n dewis sut i'w ddefnyddio.

### 2.1. Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig

Os ydych yn dechrau cwrs Meistr ôl-raddedig, naill ai wedi'i addysgu neu'n seiliedig ar ymchwil, gallwch wneud cais am gymorth ariannol o'r enw **Cyllid Gradd Meistr Ôl-raddedig**. Mae hwn yn **gyfuniad o fenthyciad a grant o hyd at £17,489** i'ch helpu gyda'ch **ffioedd dysgu a'ch costau byw**.

#### 2.1.a Meini prawf cymhwysedd

---

Gall y rheolau ynghylch cymhwysedd fod yn gymhleth. Nid diben y canllaw hwn yw cynnwys manylion am yr holl amgylchiadau unigol posibl. Ei ddiben yw bod yn ganllaw cyffredinol yn unig. Dylech geisio cyngor arbenigol gan Cyllid Myfyrwyr Cymru os nad ydych yn sicr am eich cymhwysedd.

Yn fras, **mae cymhwysedd yn dibynnu ar eich cenedligrwydd a lle rydych yn byw, eich oedran, eich cwrs a'ch prifysgol neu eich coleg ac a ydych wedi astudio o'r blaen.**

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth, rhaid i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â 'statws preswylydd sefydlog' sy'n golygu nad oes cyfyngiadau ar yr hyd y cewch aros yn y DU;
- yn byw yng Nghymru fel arfer, ac nid yw hyn yn cynnwys byw yng Nghymru at ddibenion astudio (er enghraifft, wrth wneud eich gradd israddedig);
- yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs.

Os ydych yn **ddinesydd yr UE, gallech fod yn gymwys** os ydych yn byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir fel arfer ers y tair blynedd diwethaf, a byddwch yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru.

Rhaid i chi fod **dan 60 oed ar y diwrnod y bydd eich cwrs yn cychwyn**. Mae bwsariaeth ar gael i'r rhai dros 60 oed – mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adran ar fwsariaethau yn y papur briffio hwn.

Rhaid i'ch cwrs fod:

- yn gwrw Meistr annibynnol llawn (nid cwrs atodol, tystysgrif i raddedigion na diploma);
- yn werth o leiaf 180 credyd (dyma'r nifer safonol o gredydau ar gyfer gradd Meistr lawn ond gwiriwch gyda'ch prifysgol os nad ydych yn siŵr); ac
- yn dechrau ar 1 Awst 2020 neu wedi hynny.

Gellir astudio'r cwrs mewn prifysgol neu goleg neu drwy ddysgu o bell. Mae rhagor o wybodaeth am ddysgu o bell ar gael gan [\*\*Cyllid Myfyrwyr Cymru\*\*](#).

**Rhaid i'r brifysgol gael ei hariannu drwy arian cyhoeddus a rhaid iddi fod yn y DU.** Os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi ddilyn **cwrs sydd wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru**. Os ydych yn ansicr gallwch wirio gyda'ch prifysgol.

Os oes gennych radd Meistr eisoes neu os ydych wedi cael benthyciad gradd Meistr ôl-raddedig o'r blaen ni fyddwch yn gymwys i gael y cyllid hwn.

## 2.1.b Symiau cyllid

---

Mae'r cyllid gradd Meistr ôl-raddedig yn gyfuniad o grant a benthyciad, a bydd angen talu swm y benthyciad yn ôl. Bydd y cymysgedd o grant a benthyciad yn dibynnu a ydych yn penderfynu ystyried incwm eich aelwyd ai peidio a faint yw incwm eich aelwyd. **Yr uchafswm cyfunol posibl yw £17,489.**

Er enghraifft, **gallwch gael hyd at £17,489** gydag **uchafswm grant o £6,885 a benthyciad o £10,604** os yw **incwm eich aelwyd yn £18,370 neu'n llai.**

**Isafswm y grant y gallwch ei gael yw £1,000 gyda'r £16,489 sy'n weddill fel benthyciad** os yw **incwm eich aelwyd dros £59,200** neu **os na chaiff incwm eich aelwyd ei ystyried.**

Os ydych yn astudio dros gyfnod o 2, 3 neu 4 blwyddyn academiaidd, bydd y benthyciad a'r grant yn cael eu rhannu'n gyfartal dros nifer y blynnyddoedd astudio. Dangosir hyn yn y tabl isod.

**Tabl 1: Cyllid gradd Meistr ôl-raddedig heb ystyried incwm yr aelwyd.**

Hyd y cwrs – blynyddoedd academaidd	Uchafswm y Cyllid Ôl-radd Meistr sydd ar gael fesul blwyddyn – Cyfanswm (£17,489)			
	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4
<b>1</b>	Benthyciad: £16,489  Grant: £1,000			
<b>2</b>	Benthyciad: £8,244.50  Grant: £500	Benthyciad: £8,244.50  Grant: £500		
<b>3</b>	Benthyciad: £5,496.33  Grant: £333	Benthyciad: £5,496.33  Grant: £333	Benthyciad: £5,496.34  Grant: £334	
<b>4</b>	Benthyciad: £4,122.50  Grant: £250	Benthyciad: £4,122.50  Grant: £250	Benthyciad: £4,122.50  Grant: £250	Benthyciad: £4,122.50  Grant: £250

*Ffynhonnell: Cyllid Myfyrwyr Cymru*

Mae'r manylion llawn ynghylch faint y gallwch ei gael ar gael gan [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#).

## 2.2. Benthyciad doethuriaeth ôl-raddedig

Gall myfyrwyr doethuriaeth sy'n dechrau cwrs rhan-amser neu amser llawn wneud cais am [fenthyciad doethuriaeth ôl-raddedig](#) hyd at £26,445.

### 2.2.a Meini prawf cymhwysedd

Mae nifer o feini prawf a fyddai'n golygu nad ydych yn gallu cael benthyciad cwrs Doethurol ôl-raddedig, er enghraifft os ydych yn cael cyllid gan y cyngor ymchwil, neu o'r cynllun Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS 2). Ni fyddwch yn gallu ymgeisio chwaith os oes gennych radd ddoethurol eisoes.



Yn fras, mae cymhwysedd yn debyg i'r meini prawf ar gyfer cyllid gradd Meistr ôl-raddedig **ac yn dibynnu ar eich cenedligrwydd a'ch preswyliaeth, eich oedran, eich cwrs a'ch prifysgol neu eich coleg ac a ydych wedi astudio o'r blaen.**

Yn gyffredinol, er mwyn bod yn gymwys i gael cymorth, rhaid i chi fod:

- yn wladolyn y DU neu fod â 'statws preswyllydd sefydlog' sy'n golygu nad oes cyfyngiadau ar yr hyd y cewch aros yn y DU;
- yn byw yng Nghymru fel arfer, ac nid yw hyn yn cynnwys byw yng Nghymru at ddibenion astudio (er enghraifft, wrth wneud eich gradd israddedig);
- yn byw yn y DU ers 3 blynedd cyn dechrau'r cwrs.

Os ydych yn **ddinesydd yr UE, mae'n bosibl y byddwch hefyd yn gymwys** os ydych yn byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir fel arfer ers y tair blynedd diwethaf, a byddwch yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru.

Rhaid i chi fod **dan 60 oed ar y diwrnod y bydd eich cwrs yn dechrau.**

Rhaid i'ch cwrs:

- fod yn gwrs Doethurol ôl-raddedig annibynnol llawn (nid cwrs atodol);
- para rhwng 3 ac 8 blwyddyn academaidd.

Gellir astudio'r cwrs mewn prifysgol neu goleg neu drwy ddysgu o bell a gall fod yn gwrs amser llawn neu ran-amser.

Rhaid i'ch prifysgol neu eich coleg fod yn cael arian cyhoeddus. Os ydych yn astudio mewn sefydliad preifat, rhaid i chi ddilyn cwrs sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Os oes mwy nag un brifysgol yn gyfrifol am ddarparu'ch cyrsiau ac mae'r llall dramor, byddwch yn gymwys dim ond os mai'r brifysgol yn y DU yw'r prif sefydliad ar gyfer eich cwrs a'ch bod yn treulio o leiaf 50 y cant o'ch amser astudio dros y cwrs cyfan yn y DU.

Dylech edrych ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i weld y **meini prawf cymhwysedd llawn**.

## 2.2.b Symiau cyllid

---

Gallwch gael **benthyciad o hyd at £26,445 ar gyfer eich cwrs cyfan, sy'n cael**

---

**ei rannu'n gyfartal rhwng pob blwyddyn astudio academaidd.** Er enghraifft, os ydych yn astudio cwrs amser llawn dros 4 blwyddyn academaidd ac yn gwneud cais am y benthyciad uchaf posibl, byddech yn cael £6,612 am bob blwyddyn o'ch cwrs.

Fodd bynnag, mae **terfyn ar yr hyn y mae gennych hawl iddo mewn blwyddyn, sef £10,609.** Mae hyn yn bwysig os gwnewch gais am y benthyciad ar ôl blwyddyn gyntaf eich cwrs. Er enghraifft, os yw eich cwrs yn 3 blynedd o hyd, ac rydych wedi gwneud cais am y benthyciad cwrs Doethurol ôl-raddedig yn eich ail flwyddyn, dim ond £21,218 y byddai modd i chi ei gael, gan mai'r uchafswm y gallech ei gael mewn blwyddyn yw £10,609. Felly, ni fyddech yn cael £26,445 wedi'i rannu dros ddwy flynedd gan fod £13,222.50 yn fwy na'r terfyn blyneddol.

**Nid yw'r benthyciad yn seiliedig ar incwm eich aelwyd.**

Mae'r manylion llawn ar gael gan [Cyllid Myfyrwyr Cymru](#).

### 2.3. Lwfansau i Fyfirwyr Anabl

Mae'r Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (LFA) i fyfirwyr ôl-raddedig yn wahanol i'r cynllun i fyfirwyr israddedig.

Yr LFA uchaf sydd ar gael yw lwfans unigol o £20,580 y flwyddyn ar gyfer cwrs amser llawn a chyfradd pro rata ar gyfer cwrs rhan-amser.

Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru](#).

### 2.4. Addysg Gychwynnol i Athrawon Ôl-raddedig

Os ydych yn astudio'n amser llawn neu'n rhan-amser ar gyfer cwrs Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ôl-raddedig sy'n arwain at Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), gallwch gael help gyda ffioedd dysgu a chostau byw.

Byddwch yn gymwys am werth blwyddyn o'r cyllid i israddedigion, ni waeth beth am eich cwrs blaenorol. Dylech ddarllen y [cymorth ariannol i fyfirwyr israddedig i weld pa help sydd ar gael o fis Medi 2020](#).

#### 2.4.a Cymhelliant hyfforddi athrawon

---

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **cynllun cymhelliant ar**

**gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon** sydd **ar ben cymorth ariannol tebyg i'r cymorth i fyfyrwyr israddedig** a grybwyllwyd uchod.

Mae'r cymhelliant hyfforddi athrawon yn grantiau sydd ar gael i'r rhai sy'n dilyn cyrsiau sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC). Mae'n werth rhwng £3,000 ac £20,000 gyda'r uchafswm yn cael ei dalu i'r rhai sydd wedi cael gradd dosbarth cyntaf neu sydd â gradd Meistr neu PhD ac sy'n dilyn cwrs uwchradd ôl-raddedig mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, Cymraeg neu TGCh (cyfrifiadureg).

Mae rhagor o fanylion am y cynllun ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 **ar gael yma**.

## 2.5. Cyllid gradd gwaith cymdeithasol

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweinyddu **bwrsariaeth gwaith cymdeithasol** i fyfyrwyr sy'n dilyn gradd Meistr gwaith cymdeithasol gymeradwy yng Nghymru.

### 2.5.a Meini prawf cymhwysedd

---

Er mwyn bod yn gymwys i gael y fwrsariaeth, **rhaid i chi fyw yng Nghymru a pheidio â chael cymorth ariannol gan gyflogwr i hyfforddi**, yn ogystal â bod ar gwrs cymeradwy. Rhaid i chi hefyd fod â **chynnig i astudio mewn prifysgol yng Nghymru** a all eich **enwebu i wneud cais am y fwrsariaeth**.

Fodd bynnag, **nid yw cael eich enwebu yn sicrhau y cewch gyllid y fwrsariaeth** gan fod Gofal Cymdeithasol Cymru yn asesu pob cais.

Mae'r broses ymgeisio yn agor ym mis Mehefin a bydd angen i fyfyrwyr **adnewyddu eu bwrsariaeth ar ddechrau pob blwyddyn astudio**, os yw'r cwrs yn hwy na blwyddyn.

### 2.5.b Symiau cyllid

---

Mae sawl rhan i'r cyllid.

**Wrth astudio gradd Meistr, cewch fwrsariaeth o £13,280 (£6,640 y flwyddyn am ddwy flynedd)** ac nid yw'n cael ei hasesu ar sail incwm eich aelwyd. Os ydych yn fyfyrwr rhan-amser byddwch yn cael cyfradd pro-rata gan ddibynnu ar hyd eich cwrs.

Gallwch hefyd gael **help tuag at gostau lleoliadau gwaith** o dan y Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer (LCDY). Caiff ei gyfrifo fel £7.50 fesul diwrnod cyfle dysgu ymarfer.

---

Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yma](#).

### 2.5.c Grantiau a lwfansau eraill

---

Fel rheol, nid oes gan fyfyrwyr Meistr fynediad at Lwfansau Dibynyddion, ond os cewch eich derbyn am fwrsariaeth Meistr gwaith cymdeithasol efallai y byddwch hefyd yn gymwys i gael y canlynol:

- grant gofal plant (hyd at £8,330 ar gyfer un plentyn a £14,285 ar gyfer dau blentyn neu fwy);
- grant oedolion dibynnol hyd at £2,645;
- lwfans dysgu i rieni hyd at £1,505.

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys ar gyfer y **Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (LFA)** os dyfernir y fwrsariaeth Meistr i chi. Dyma'r cyfraddau:

- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am lwfans cynorthwydd anfeddygol: hyd at £13,070 y flwyddyn
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am lwfans cyfarpar arbenigol: hyd at £5,165 ar gyfer hyd y cwrs
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am lwfans cyffredinol: hyd at £1,730 y flwyddyn
- Ymgeiswyr anabl sy'n gwneud cais am gostau teithio: Gwariant sy'n angenrheidiol at ddiben astudio

**Nid dyma'r un lwfansau ag y gwelwch ar wefan Cyllid Myfyrwyr. Mae'r rhain yn lwfansau ychwanegol a weinyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru.** Dylech wirio [ei reolau ynghylch cymhwysedd a symiau](#).

## 3. Ffynonellau cyllid eraill i ôl-raddedigion a'r rhai sydd mewn addysg oedolion

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am ffynonellau cyllid posibl eraill. Mae'n cynnwys rhaglenni addysg uwch ac addysg heblaw addysg uwch a all fod yn fwy galwedigaethol.

### 3.1. Bwrsariaethau

Mae'r **bwrsariaethau a ganlyn ar gael** i'r rhai sy'n dilyn gradd Meistr yng Nghymru:

- **£4,000 i bobl dros 60 oed.** Nod y grant yw rhoi cymorth ychwanegol i'r myfyrwyr hyn nad ydynt yn gallu cael y cyllid cwrs Meistr ôl-raddedig.
- **£2,000 i raddedigion o bob oed sy'n astudio pynciau 'STEMM'.** Mae'r rhain yn cynnwys gradd Meistr mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg neu feddygaeth.
- **£1,000 ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.** Nod y grant yw annog datblygiad siaradwyr Cymraeg i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

### 3.2. Cyngorau ymchwil

**Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig** (UKRI) yw'r corff sy'n dwyn ynghyd y saith cyngor ymchwil yn y DU ynghyd ag Innovate UK a Research England.

Mae gan bob cyngor ymchwil ei bortffolio ei hun sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o'r gwyddorau meddygol a biolegol i seryddiaeth, ffiseg, cemeg a pheirianeg, gwyddorau cymdeithasol, economeg, gwyddorau amgylcheddol a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

Mae pob un o'r cyngorau ymchwil yn ystyried cyllido ôl-raddedigion unigol, ond mae'r broses o sicrhau cyllid gan unrhyw gyngor ymchwil yn gystadleuol, ac nid yw'r ffaith bod myfyriwr wedi cael lle ar raglen ôl-radd yn golygu o anghenraid y dyfernir cyllid iddo. Ceir gwybodaeth fanylach am gyllid ar **wefan UKRI**.

### 3.3. Y gyfraith

Mae **Cymdeithas y Cyfreithwyr** yn cynrychioli cyfreithwyr ledled Cymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu cymorth mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys

lobïo a thrafod â rheoleiddwyr, y llywodraeth ac eraill, ac yn cynnig hyfforddiant a chynngor.

Mae'n gweinyddu cynllun mynediad o'r enw **Diversity Access Scheme** i helpu pobl ymroddedig, eithriadol o ddawnus i oresgyn rhwystrau cymdeithasol, economaidd neu bersonol i ddod yn gyfreithiwr. Gall y cynllun hwn ddarparu ysgoloriaethau llawn a rhannol i ariannu'r Cwrs Ymarfer y Gyfraith; lleoliadau gwaith; a chymorth mentora. Mae'r cyfnod ymgeisio ar gyfer 2020 wedi dod i ben.

### 3.4. Dawns, drama a cherdd

Mae'r cynllun DaDa (Dyfarniadau Dawns a Drama) yn cynnig cymorth yn seiliedig ar asesiad incwm ar gyfer ffioedd dysgu a chostau byw mewn nifer o sefydliadau dawns a drama preifat yn Lloegr.

Bwriedir i gyllid DaDa gyfrannu at gostau unigolion dawnus sydd am ddod yn actorion a dawnsywyr proffesiynol. Mae swm y grantiau yn dibynnu ar incwm yr aelwyd a lle mae'r myfyriwr yn byw ac yn astudio. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gyfer 2020-21 ar gael ar [wefan GOV.UK](#).

Hefyd, mae gan Lywodraeth y DU **Gynllun Cerdd a Dawns** sy'n rhoi cymorth ariannol ar gyfer addysg neu hyfforddiant arbenigol i gerddorion a dawnsywyr ifanc. Mae'r grantiau'n helpu gyda ffioedd a nifer o ysgolion a chanolfannau hyfforddi uwch.

Mae **Ymddiriedolaeth Celfyddydau Ieuenctid Genedlaethol yn darparu bwrsariaethau** hyd at £1,000 ar gyfer dawns, drama a cherdd i bobl ifanc 12-25 oed. Er mwyn bod yn gymwys i gael bwrsariaeth rhaid i chi fodloni nifer o feini prawf, gan gynnwys bod yn ddinesydd y DU a gallu dangos dawn ac ymroddiad i wella'ch sgiliau. Ceir rhagor o [wybodaeth am gymhwysedd](#) a [sut i wneud cais](#) ar ei gwefan.

Ceir rhagor o sefydliadau sy'n cynnig cyngor a grantiau ar [wefan Academy of Creative Training](#).

### 3.5. Elusennau ac ymddiriedolaethau

#### **Sefydliad Sidney Perry**

Prif ddiben y **Sefydliad** yw helpu myfyrwyr sy'n dilyn gradd gyntaf, ond mae hefyd yn cefnogi myfyrwyr ar gyrsiau ail radd sy'n gysylltiedig â'u graddau cyntaf. Bwriedir i grantiau fod yn atodol, a'r **grant uchaf posibl yw £1,000**. Mae

canllawiau a ffurflenni cais i'w gweld ar [wefan y Sefydliad](#).

### **Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen**

Mae'r [Ymddiriedolaeth](#) yn rhoi cymorth i lawer o fyfyrwyr o Gymru sy'n ymgymryd â blwyddyn astudio ôl-raddedig drwy roi grantiau ar gyfer ffioedd dysgu hyd at o £7,000 ym mhob achos. Mae canllawiau a'r ffurflen gais ar gael ar **wefan yr Ymddiriedolaeth**.

### **Ymddiriedolaeth Addysgol Syr Richard Stapley**

Nod yr [Ymddiriedolaeth](#) yw cefnogi myfyrwyr meddygaeth, deintyddiaeth neu filfeddygaeth, a myfyrwyr ôl-raddedig ym mhob maes astudio. Fel arfer, mae'r grantiau rhwng £500 a £1,500. Ceir rhagor o wybodaeth am gymhwysedd a sut i wneud cais ar [wefan yr Ymddiriedolaeth](#).

### **Funds for Women Graduates (FfWG)**

Mae Funds for Women Graduates yn cynnig grantiau i helpu menywod sy'n raddedigion gyda'u costau byw (nid ffioedd) yn ystod blwyddyn olaf PhD neu DPhil pan fyddant wedi'u cofrestru i astudio neu wneud gwaith ymchwil mewn sefydliad addysg uwch cymeradwy. Mae hefyd yn cynnig grantiau brys i fenywod graddedig sy'n wynebu argyfwng ariannol annisgwyl (heb fod yn gysylltiedig â ffioedd). Ceir rhagor o wybodaeth ar [ei gwefan](#).

### **Ymddiriedolaeth Addysgol Gilchrist**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried ceisiadau am grantiau i unigolion sydd wedi gwneud darpariaeth briodol i ariannu gradd neu gwrs addysg uwch ond sy'n wynebu anawsterau ariannol annisgwyl a all eu hatal rhag cwblhau'r cwrs. Rhaid i ymgeiswyr fod yn fyfyrwyr amser llawn mewn prifysgol ym Mhrydain. Ceir rhagor o wybodaeth am grantiau i unigolion ar [wefan yr Ymddiriedolaeth](#).

## 4. Rhagor o wybodaeth

Mae rhestr o ymddiriedolaethau, elusennau a sefydliadau yn y DU sy'n darparu cyllid cyrsiau ôl-raddedig i'w chael ar [wefan Prospects](#). Hefyd, mae [Hot Courses](#), [Scholarship Search](#), [Postgraduate studentships](#) a [Student Cash Point](#) yn cynnwys cronfeydd data ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth am grantiau i fyfyrwyr, benthyciadau, bwrsariaethau, ysgoloriaethau a dyfarniadau.

Mae [Turn2Us](#) yn wasanaeth elusennol sy'n helpu pobl i ddod o hyd i ffynonellau cymorth ariannol addas a gwneud ceisiadau amdanynt, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau penodol. Gall cronfa ddata Turn2Us helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth am fudd-daliadau lles, grantiau, cronfeydd lles a help arall.

Mae'r [Grants Register](#), a gyhoeddir yn flynyddol, yn rhoi manylion am filoedd o gyfleoedd cyllido ledled y byd. Mae'r Directory of Grant Making Trusts, a gyhoeddir yn flynyddol gan y Sefydliad Cymorth i Elusennau, hefyd yn rhoi gwybodaeth am ffynonellau grantiau perthnasol. Mae'r llyfrau hyn ar gael gan wasanaethau gyrfaoedd neu mewn llyfrgelloedd lleol.

Elusen gofrestredig sy'n ymroddedig i hyrwyddo addysg ôl-raddedig yn y Deyrnas Unedig yw'r [National Postgraduate Committee](#). Nid yw gweithgareddau'r pwyllgor hwn yn cynnwys rhoi nawdd ariannol i unigolion na chysiau ond mae adran ar y wefan sy'n rhoi gwybodaeth ac yn amlinellu ffynonellau cymorth ariannol sydd ar gael i ôl-raddedigion sy'n astudio yn y DU.